A dywedodd wrthynt, “Dewch ar fy ôl i, ac fe’ch gwnaf yn bysgotwyr dynion.”
(Mathew 4:19)

Yn yr adnod yma mae’r Arglwydd Iesu yn rhoi galwad a pharatoad i bedwar pysgotwr i fywyd o rwydo pobl i deyrnas Dduw, yn hytrach na dal pysgod.

Darlun

Mae’r Arglwydd Iesu yn defnyddio gwaith presennol y dynion i ddisgrifio’r gwaith y mae Ef yn eu galw i’w wneud. Mae’n creu darlun o apostol fel pysgotwr. Mae’n ryfeddod parhaus i mi fod yr Arglwydd yn medru cyfleu gwirioneddau mawr trwy ddarluniau mor syml a chyffredin.

Dydym ni ddim yn sôn am y pysgotwr gwialen yn dilyn ei hobi fel mae amser yn caniatáu, ond am ddynion oedd yn y fusnes bysgota; dyna oedd eu bywoliaeth.

Rhaid meddwl am y pysgotwr proffesiynol, felly, sy’n gorfod dal ati i geisio dal pysgod er mwyn byw a chynnal ei deulu. Er y gallai gael sawl siwrnai seithig i’r môr a dod nôl gyda rhwydi gwag, doedd dim dewis ond mynd eto a dyfalbarhau.

Er bod rhaid gweithio ar amseroedd hynod anghymdeithasol, roedd rhaid mynd allan ar yr adeg orau i ddal haig go lew. Ystyr llwyddiant oedd cael rhwyd yn llawn o bysgod braf.

Mae’r nodweddion hyn o bysgota yn rhoi darluniau i ni o bwysigrwydd efengylu i Eglwys Iesu Grist. Nid hobi yw ennill eneidiau, i’w ddilyn pan mae’n gyfleus i ni. Mae ein llwyddiant yng ngolwg yr Arglwydd yn dibynnu ar bysgota pobl.

Dal dynion

Mae hyn yn ein harwain at y nod oedd gan Iesu mewn golwg i’w ddisgyblion. Y nod fyddai dal pobl, dal eneidiau, sef dod â nhw yn ddiogel i deyrnas Dduw, ac i freichiau Duw, trwy ymddiried yn Iesu Grist. Rhaid i ni gadw’r nod yn glir yn ein meddyliau bob amser. Nid dim ond dod â phobl i oedfa, nid dim ond derbyn aelodau a chwyddo rhifau, ond gweld pobl yn dod i afael y cadw sydd yng Nghrist.

Mae’r Arglwydd Iesu yn cadarnhau bod Duw yn cymeradwyo’r bobl sydd yn ceisio tynnu eraill ato:**“a’r neb a enillo eneidiau sydd ddoeth.”** (Diar.11:30 BWM). Mae’r adnod yma’n sôn am ddylanwad dyn cyfiawn yn dwyn bywyd i eraill, ac yn denu eraill at gyfiawnder.

"a'r rhai sydd wedi troi llawer at gyfiawnder, byddant fel y sêr yn oes oesoedd." (Dan.12:3) Mae gan y byd ei sêr, yn gantorion, athletwyr, actorion ac yn y blaen, ond sêr Duw yw'r rhai sy'n gyfrwng i droi eraill at y llwybr iawn, trwy eu cyfeirio at Grist: **"Yr wyf wedi mynd yn bopeth i bawb, er mwyn imi, mewn rhyw fodd neu'i gilydd, achub rhai."** (1 Cor.9:22). Nod Paul wrth ddelio ag Iddewon neu Genedlddynion oedd eu hachubiaeth. Byddai'n cychwyn trwy sefydlu tir cyffredin er mwyn eu harwain at y Gwaredwr.

Dysgu

Sut fyddai'r pysgotwyr yma yn dod yn apostolion fyddai'n troi'r byd wyneb i waered? Sut allwn ni heddiw fod yn bysgotwyr pobl yn y Gymru galed, gyfoes? Mae'r ateb cysurlon yn yr alwad. Dywedodd yr Arglwydd a'r Athro: **"Dewch ar fy ôl i, ac fe'ch gwnaf..."**

Eu gwaith cyntaf oedd ei ddilyn Ef, a gadael iddo Ef eu paratoi a'u mowldio i fod yn bysgotwyr eneidiau. Roedd angen hyfforddiant mewn swydd arnynt.

Arsylwi

Byddai hyn yn golygu gwylio'r Meistr wrth ei waith. Byddent yn byw gyda'r Pen-Bysgotwr eneidiau am dair blynedd.

Byddent yn gweld y ffordd byddai'n ymbaratoi cyn mynd i bysgota. Fel byddai'r pysgotwyr yn cyweirio ac yn glanhau'r rhwydi, byddai Iesu yn treulio amser mewn gweddi, cyn ac ar ôl ymwneud â phobl.

Byddent yn gweld ei dosturi a'i gydymdeimlad â phobl oedd mewn angen, ac ar drugaredd gau athrawon. Roedd yn dangos cydymdeimlad ag unigolion a thyrfa, plant ac oedolion, y parchus a'r amharchus. Trwy gydol ei weinidogaeth byddai'r Arglwydd yn gosod esiampl berffaith i'w weision.

Derbyn nerth

Hefyd, byddai'r Arglwydd Iesu yn eu paratoi i dderbyn nerth nefol er mwyn cyflawni'r gwaith. Fel y cafodd y Meistr ei eneinio â'r Ysbryd Glân cyn ei weinidogaeth gyhoeddus, byddai'n dysgu ei ddisgyblion i oedi yn Jerwsalem, er mwyn **"disgwyl am yr hyn a addawodd y Tad."** (Act.1:4)

Onid yw'n fendith aruthrol i feddwl bod yr Arglwydd Dduw yn galw ac yn defnyddio bodau dynol fel ni i ennill eraill i'w deyrnas? Boed i bob un Cristion a phob eglwys gofio'r pwysigrwydd mae Duw yn ei air yn ei roi ar ennill eraill i'w deyrnas. Boed i ni gadw'r nod o ennill eneidiau i Grist o flaen ein llygaid a pheidio â bodloni ar lai na hynny. A diolch i'n Harglwydd ei fod yn fodlon ein dysgu a'n harfogi i'r gwaith.